Annwyl Riant/Gwarcheidwaid, 19/10/2016

Stwff a Straeon y Chwarel

9 Tachwedd – 6.30 i 7.30 yh - Ysgol Llanllechid

Mae prosiect Llwybr Llechi Eryri'n cynnig cyfle i ddisgyblion blwyddyn 6 gymryd cyfrifoldeb am noson arbennig sydd i'w chynnal yn yr ysgol, pan fydd oedolion yn cael eu gwadd i ymweld gyda 'stwff a straeon' sef lluniau, eitemau a hanesion, ynglŷn â bywyd yn oes aur y chwareli. Pwrpas y noson yw hel stwff er mwyn ei rhoi mewn ap ffôn a fydd yn gydymaith i gerddwyr y llwybr wrth iddynt gerdded drwy bentrefi chwarelyddol Eryri sy'n cynnwys **Rachub a Llanllechid**. Bydd disgyblion bl 6 yn westai i`r noson ac yn cymryd rhan drwy:

- groesawu ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd,
- sgwrsio a gwrando ar eu straeon
- recordio'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud,
- sganio lluniau a dogfennau
- cofnodi ar fap
- gweini paned

Wedi'r noson bydd y disgyblion yn cael amser i ddethol deunydd ar gyfer yr ap. Hoffai`r trefnwyr gael ymrwymiad rhai o`r disgyblion sy'n dewis gwirfoddoli ar gyfer y noson. Felly os yw eich plentyn ar gael a fyddech cystal a llenwi`r bonyn isod os gwelwch yn dda.

Oes modd i chi ddychwelyd yr isod erybn **dydd Mawrth 1 Tachwedd** os gwelwch yn dda.

Yr eiddoch,

Pennaeth

Stwff a Straeon y Chwarel

Enw'r disgybl:.....

Rwyf am sicrhau y bydd fy mhlentyn yn mynychu'r noson..... (llofnod) ac yn cyrraedd am **6.15 yh**